# Cyngor Cymuned Llanycil.
# Cyfarfod Blynyddol.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Mai 25ain 2022 yn Neuadd Maeyswaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Richards, Jean Roberts, a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards

i) Croesawu'r cynghorwyr.
Croesawyd y cynghorwyr i'w tymor newydd ar y Cyngor. Gwblhawyd y ffurflenni derbyn swydd a datgan buddiant. Yn anffodus roedd Gwynedd Jones wedi penderfynu peidio ail ymuno a'r Cyngor Cymuned. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch iddo am ei ymroddiad i'r Cyngor dros yr holl flynyddoedd.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd, cyfethol aelod newydd
a) Etholwyd Euros Puw fel cadeirydd a Huw Charles yn is-gadeirydd. Gan nad oedd Euros Puw yn bresennol cytunodd Huw Charles i gadeirio'r cyfarfod.
b) Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad cyfethol am y cyfnod penodol a thrafod unrhyw geisiadau yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies a Jean Roberts.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Roedd cyfnod Cyngor Llandderfel wedi dod i ben a thro cynrychiolydd o Gyngor Llanycil oedd mynychu'r cyfarfodydd. Roedd Geraint Davies eisoes wedi cytuno i gynrychioli'r Cyngor.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol oedd y Clerc wedi ei baratoi.

v) Cyfrifon 2021-22.
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2021-22 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor.

vii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2022/23.
Cadarnhaodd y clerc eu bod wedi derbyn llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

viii) Adolygu Asedau
Adolygwyd y rhestr asedau a adroddodd y clerc fod y llochesi bws wedi cael eu harchwilio cyn y cyfarfod gan y cynghorwyr.



Arwyddwyd: …………………………………………… Dyddiad:……………………..

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.

x) Cynllun Hyfforddiant.
Trafodwyd yr hyn a oedd angen eu cynnwys yn y cynllun hyfforddiant. Gwnaed asesiad o anghenion hyfforddiant y cynghorwyr presennol a'r clerc a be fyddai ar gael i unrhyw gynghorwyr newydd a fyddai'n ymuno a'r Cyngor.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad:……………………..